

Aros, Iesu

Gweddïa am help yr Ysbryd Glân i ddeall y geiriau rwyf am edrych arnynt nawr a darllena Ioan 14: 15–18.

Un o fy hoff benillion gan William Williams, Pantycelyn, yw hwn, byddaf yn meddwl yn aml amdano wrth gychwyn addoli'r Arglwydd:

Boed fy nghalon iti'n demel,
Boed fy ysbryd iti'n nyth,
ac o fewn y drigfan yma
aros, Iesu, aros byth:
gwledd wastadol
fydd dy bresenoldeb im.

Ymddangosodd yr emyn hwn am y tro cyntaf yn ail gyfrol Pantycelyn, sef, *Ffarwel Wledig* (1766). Yn yr emyn gwreiddiol y mae 6 phennill; y pedwar olaf a geir yn Caneuon Ffydd rhif 698. Gan ei bod yn Sul y Pentecost ar 31 Mai roeddwn yn meddwl y buasai'n fuddiol inni fyfyrion ar yr Ysbryd Glân gan ddefnyddio'r pennill hwn. Mae'r llinell gyntaf yn adleisio'r adnod hon, 'Oni wyddoch mai teml Duw ydych, a bod Ysbryd Duw yn trigo ynoch?' (1Co. 3:16, gw. hefyd Ioan 14: 15–18) Yr oedd Iesu wedi addo i'r disgyblion y byddai Ef yn anfon yr Ysbryd ar ôl iddo ymadael. Dywedodd fel hyn yn Ioan 16, 'Yr wyf fi'n dweud y gwir wrthych: y mae'n fuddiol i chi fy mod i'n mynd ymaith. Oherwydd os nad af, ni ddaw'r Eiriolwr (Ysbryd Glân) atoch chi. Ond os af, fe'i hanfonaf ef atoch.' (Ioan 16:7) Dyna ddigwyddodd ar y Pentecost, ond nid digwyddiad un waith ac am byth oedd y Pentecost, lle y bendithiwyd y Cristnogion cyntaf yn unig, oherwydd y mae pawb sy'n credu yn Iesu Gobeithio yn derbyn yr Ysbryd Glân. Daw Ef i mewn i'n calonnau gan aros gyda ni trwy gydol ein hoes yn ein nerthu a'n goleuo. Mae'r ail linell yn cyfleu yn hyfryd y syniad o'r Ysbryd fel colomen yn dod i nythu yn ein calon, (Gw. Marc 1: 10). Yn y drydedd linell ceir adlais o Ioan 14: 23, lle dywed Iesu, 'Os yw rhywun yn fy ngharu, bydd yn cadw fy ngair i, a bydd fy Nhad yn ei garu, ac fe ddown ato a gwneud ein trigfa gydag ef.'

A sylwch sut y mae Pantycelyn yn uniaethu presenoldeb Iesu gyda phresenoldeb yr Ysbryd. o9 Addawodd Iesu yn Mathew 28: 20, fel hyn, 'Ac yn awr, yr wyf fi gyda chi bob amser hyd ddiwedd amser.' Ond sut ar wyneb y ddaear y mae Iesu yn gwireddu hyn? Wel, trwy'r Ysbryd. Yr Ysbryd Glân yw presenoldeb Iesu. Y mae ynom ni fel Cristnogion ac y mae gyda ni fel credinwyr bob amser. Cofiwch nad grym ar wahân i Dduw yw'r Ysbryd ond Duw ei hun yn cymhwyso gwaith rhyfeddol Iesu.

Ar ddiwedd y pennill fe ddywedir, 'Gwledd wastadol fydd dy bresenoldeb im.' Mewn llawer man y mae teyrnas Dduw yn cael ei chyffelybu i wledd e.e. Eiseia 55; Mathew 22: 2; Luc 14: 12–24. Y mae presenoldeb Iesu trwy'r Ysbryd yn ein bywydau yn wledd inni. Mae cymdeithas gyda'r Iesu yn wledd lawen. Rydym yn cael ein bwydo a'n cynnal, rydym yn cael cwmnïaeth a mwynhad. Wrth gloi sylwch fel mae'r ddwy linell gyntaf yn cychwyn gyda'r gair 'Boed'. Mae hyn yn mynegi dymuniad a gwahoddiad i'r Ysbryd i ddod i mewn i galon yr un sy'n canu'r geiriau.

Cymhwyso

1. Duw yw'r Ysbryd Glân.
2. Gwahoddwch yr Ysbryd i'ch calon beth bynnag rydych yn ei wynebu.
3. Mae'r Ysbryd yn ein helpu i ddeall y newyddion da yn well ac i adnabod Iesu.
4. Mae'r Ysbryd yn rhoi doniau arbennig er mwyn i ni wasanaethu Duw.
5. Nid ydym byth ar ein pennau ein hunain.